LANCS32

Cynllunio a rheoli rheolaeth chwyn, plâu, clefydau, diffygion neu lystyfiant annymunol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio a rheoli mesurau rheoli ar gyfer chwyn, plâu, clefydau, diffygion neu lystyfiant annymunol, yn cynnwys rhywogaethau ymledol, niweidiol neu wenwynig.

Mae'n cynnwys asesu'r angen am reoli, cynllunio'r mesurau rheoli, rhoi cynlluniau ar waith ac adolygu eu heffeithiolrwydd. Mae ystod o dechnegau ac offer ar gael ar gyfer rheoli chwyn, plâu, clefydau, diffygion neu lystyfiant annymunol ar draws pob amgylchedd a sefyllfa (ar dir neu mewn dŵr, gwyllt neu wedi'i amaethu, agored neu gaeëdig). Gall y dulliau gynnwys ataliaeth, monitro, rheoli a dileu.

Nid yw'r safon hon yn cynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud gan gynghorydd arbenigol fydd fel arfer wedi nodi ymlaen llaw pa fesurau rheoli y dylid eu defnyddio a sut gellir eu gweithredu.

Mae'n rhaid i chi wneud eich gwaith mewn ffordd sydd yn ystyried ei effaith ar yr amgylchedd.

Mae angen i unrhyw un sydd yn gweithio gyda chemegau neu beiriannau fod wedi cael hyfforddiant yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a meddu ar ardystiad cyfredol lle bo angen.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer unrhyw un sydd yn gyfrifol am reoli rheolaeth chwyn, plâu, clefydau, diffygion a llystyfiant annymunol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. sefydlu mesurau i gasglu gwybodaeth am bresenoldeb chwyn, plâu, clefydau, diffygion neu lystyfiant annymunol
2. nodi graddfa unrhyw broblemau a'r angen am fesurau rheoli yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael
3. cael cyngor arbenigol lle bo angen
4. asesu costau, peryglon ac effeithiolrwydd tebygol mesurau rheoli posibl
5. dewis mesur rheoli addas
6. cynnal asesiad amgylcheddol o'r safle cyn dechrau gwaith
7. creu cynllun a manylebau sydd yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol ar gyfer defnyddio'r mesur rheoli dewisol yn ddiogel ac yn effeithiol
8. sicrhau bod yr adnoddau gofynnol ar gael ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith
9. sicrhau bod y mesur rheoli dewisol yn dal yn berthnasol, cyn rhoi'r cynllun ar waith
10. cyfathrebu'r cynlluniau i unigolion, grwpiau neu sefydliadau y mae angen eu hysbysu
11. rheoli gweithrediad y cynllun a rhoi systemau yn eu lle i ymdrin â phroblemau gweithredol
12. adolygu effeithiolrwydd y cynllun ac asesu a oes angen gweithredu pellach
13. cadarnhau bod y ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad yn cael eu rhoi ar waith ar draws eich maes cyfrifoldeb
14. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cynnal a'u storio fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a'ch sefydliad

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y chwyn, plâu, clefydau, diffygion neu lystyfiant annymunol sydd yn gyffredin yn eich maes gwaith
2. natur y broblem o ran yr hyn y gallai ei wneud i'r safle a pha mor gyflym y gallai ddatblygu
3. effaith y tymor a'r tywydd
4. pwysigrwydd cynnal asesiad amgylcheddol o'r safle cyn dechrau gwaith a'r canfyddiadau a allai effeithio ar y gwaith arfaethedig
5. yr amgylchiadau lle gallai dim ymyrraeth fod orau
6. rheolaeth integredig plâu a'i manteision a'i hanfanteision
7. y rhesymau pam y gallai fod yn bwysig cael cyngor arbenigol a ffynonellau cyngor o'r fath
8. yr ystod o fesurau rheoli sydd ar gael a'r amseriad gorau ar gyfer eu defnyddio
9. costau, risg a buddion posibl y mesurau rheoli amrywiol
10. pwysigrwydd dewis y mesur rheoli gorau
11. yr adnoddau sy'n ofynnol ar gyfer y gwaith
12. yr unigolion, grwpiau neu sefydliadau perthnasol y mae angen eu hysbysu am eich cynllun
13. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r rheiny sydd yn gysylltiedig â'r gwaith, neu wedi'u heffeithio ganddo
14. y camau i'w cymryd mewn ymateb i bryderon neu broblemau gyda'r cynllun
15. pwysigrwydd monitro ac adolygu'r cynllun
16. sut a phryd i asesu a yw'r cynllun wedi creu'r canlyniad dymunol
17. y rhesymau pam y gall fod angen gweithredu pellach a sut i addasu'r cynllun yn unol â hynny
18. sut i adnabod peryglon a chynnal asesiadau risg
19. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
20. y gofynion cyfreithiol perthnasol a rhai eich sefydliad ar gyfer cwblhau a storio cofnodion

## Geirfa

Gall y **dulliau rheoli** fod yn rhai llaw, mecanyddol, biolegol, diwylliannol, cemegol, dileu, atal neu leddfu.

Gall **clefydau** fod yn ffyngol, feirysol neu facterol.

Gall **anhwylderau** gynnwys diffygion maeth (e.e. diffygion nitrogen neu galsiwm).

**Unigolion, grwpiau neu sefydliadau:**

- cyflogeion
- cymuned leol
- sefydliadau sy'n ymylu ar y safle
- partïon eraill â diddordeb

Rhywogaethau **ymledol nad ydynt yn gynhenid** – Mae rhestr o rywogaethau blaenoriaeth uchel ar gael ar Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau nad ydynt yn Gynhenid (NNSS) Cenedlaethol PF ynghyd â chyngor ar gamau i'w cymryd a system ar gyfer adrodd am ganfyddiadau.

Gall **plâu** fod yn anifeiliaid di-asgwrn-cefn neu ag asgwrn cefn e.e. pryfed, cnofilod, adar

Mae **cyfarwyddiadau a manylebau** yn cynnwys**:**

- darluniau/cynlluniau
- mapiau safle /asesiad delwedd o'r awyr
- amserlenni
- datganiadau dull
- Gweithdrefnau Gweithredu Safonol (SOP)
- canllawiau cynhyrchwyr
- gofynion cyfreithiol
- canllawiau arfer da
- gofynion cwsmeriaid

- safon gofynnol y canlyniad
- cyfarwyddiadau llafar

Gall **chwyn** fod yn rhywogaethau ymledol, rhywogaethau niweidiol/gwenwynig, chwyn cyffredin

LANCS32

Cynllunio a rheoli rheolaeth chwyn, plâu, clefydau, diffygion neu lystyfiant annymunol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS32 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffermwr, Rheolwr Fferm, Rhodiwr, Swyddog Cadwraeth, Gweithiwr Ystâd, Cynghorydd Technegol Amaethyddol, Swyddog Mynediad, Rheolwr Gwirfoddolwyr, Rheolwr Parc, Rheolwr Cynhyrchu Garddwriaeth, Ecolegwyr |
| **Cyfres/Set** | Rheolaeth Amaethyddol, Garddwriaeth, Cadwraeth Amgylcheddol, Crofftwyr a Thyddynwyr |
| **Geiriau Allweddol** | pryfed; chwyn; plâu; clefydau; diffygion; mesurau rheoli; biolegol; diwylliannol; cemegol; cnydau; planhigion |